# Minutes

## Cyngor

| | |
|---|---|
| Date: | Dydd Mawrth, 28 Medi 2021 |
| Time: | 5.00 pm |
| Present: | Councillors J Cleverly, P Cockeram, K Critchley, M Al-Nuaimi, C Evans, M Evans, C Ferris, D Fouweather, G Giles, J Guy, D Harvey, I Hayat, Councillor R Jeavons, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, M Rahman, J Richards, M Spencer, H Thomas, K Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, T Watkins, K Whitehead, D Wilcox, D Williams, G Berry, J Clarke, R Hayat, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, J Jones, J Watkins and A Morris |
| Apologies: | Councillors D Davies, M Kellaway, T Suller, M Whitcutt, R White, V Dudley, Y Forsey, T Holyoake and H Townsend |

1. **Rhagofynion**

2. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion 20 Gorffennaf 2021 i'w cymeradwyo.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Routley at Eitem 7, Cwestiwn pedwar ar dudalen 16 o'r Cofnodion, sef cwestiwn y Cynghorydd Matthew Evans i'r Aelod Cabinet Hamdden a Diwylliant. Ceisiodd y Cynghorydd Routley godi pwynt ynghylch cywirdeb gyda'r Cynghorydd Harvey ond fe'i gwrthodwyd. Gofynnodd i hyn gael ei nodi yn y Cofnodion.

**Cytunwyd:**
Cymeradwyo bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar yr ychwanegiad hwn.

3. **Penodiadau**

Ystyried y penodiadau a oedd wedi'u cynnig yn yr adroddiad

Yn ddiweddar, roedd yr Is-bwyllgor Penodi wedi penodi Cyfarwyddwyr Strategol newydd, fel yr amlinellir isod. Llongyfarchodd y Cynghorydd Harvey Sally-Ann Jenkins a Rhys Cornwall ar gael eu penodi'n llwyddiannus.

Cynigiodd y Cynghorydd Harvey y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad, fel yr oedd y Rheolwyr Busnes wedi cytuno arnynt, yn amodol ar y penodiadau ychwanegol a nodir isod.

**Penderfynwyd:** Cytuno ar y penodiadau canlynol.

Fel Cadeirydd Bwrdd Trafnidiaeth Casnewydd, datganodd y Cynghorydd Harvey fuddiant yn y penodiad nesaf, a gofynnodd i'r Arweinydd gynnig Robert Greene, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i gymryd lle Owen James fel aelod o Fwrdd Trafnidiaeth Casnewydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Fouweather.

**Penodiadau i Gyrff Llywodraethol**

| Corff Llywodraethol | Nifer y Swyddi Gwag / Ailbenodiadau | Enwebiadau a Gafwyd |
|---|---|---|
| Ysgol Basaleg | 1 | David Williams |
| Ysgol Basaleg | 1 | Richard White |
| Ysgol Uwchradd Llyswyry | 1 | Roger Jeavons |
| Ysgol Gynradd Sain Silian | 1 | Mark Jenkins |
| Ysgol Gynradd Glan Llyn | 1 | Alison Harries |
| Ysgol Gyfun Caerllion | 1 | William Routley |
| Ysgol Gyfun Caerllion | 1 | Paul Warren |
| Ysgol Gynradd Clytha | 1 | Peter Bray |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Gabriel | 1 | Clare Heath |

**Rôl Cyfarwyddwr Strategol y Cyngor**
Cyfarwyddwr Strategol – Gwasanaethau Cymdeithasol – Sally-Ann Jenkins
Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a'r Ganolfan Gorfforaethol – Rhys Cornwall

**Penodiadau Mewnol**
Canolfan Gyflawni'r Bont – Cynghorydd D Mayer

**Cyrff Allanol**
Y Cynllun Ffowndri Lled-ddargludyddion Cyfansawdd (CSC) – Cynghorydd D Harvey
Bwrdd Trafnidiaeth Casnewydd – Robert Green

4. **Materion yr Heddlu**

Rhoddodd yr Uwcharolygydd Mike Richards y newyddion diweddaraf am y blaenoriaethau presennol o ran plismona lleol, cyn gofyn am gwestiynau gan yr Aelodau.

Achubodd y Maer ar y cyfle i ddiolch i swyddogion yr heddlu a gymerodd ran mewn taith feicio noddedig o Gasnewydd i Aberhonddu yn ddiweddar, gan ddechrau yng Ngorsaf Heddlu Canol Casnewydd, i godi arian er budd Ymddiriedolaeth Canser yr Arddegau.

Bu'r Maer hefyd yn bresennol yng Nghlwb Ieuenctid Shaftesbury i gyflwyno gwobr i'r grŵp ieuenctid, ac roedd hefyd am ddiolch i'r swyddogion hynny a oedd yn bresennol am eu gwaith caled a'u cefnogaeth yn y gymuned.

Gofynnodd y Maer i'r Arweinydd ddweud ambell air.

Rhoddodd yr Arweinydd adborth ynghylch y gweithgareddau plismona cadarnhaol a gyflawnwyd ar draws y ddinas. Roedd yr Arweinydd wrth ei bodd yn cael bod yn bresennol yn Niwrnod Hwyl Cymdeithas Cymuned Yemen Casnewydd, a gynhaliwyd yn y Pil, ac yng Ngŵyl Maendy ym Mharc y Jiwbilî, ac roedd hi'n braf gweld yr heddlu, a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn bresennol yn y digwyddiadau hyn. Roedd yr holl gynrychiolwyr hyn yn cymryd rhan yn y gymuned ac yn cymryd rhan yn frwd yn y gweithgareddau. Roedd hyn yn adlewyrchiad cadarnhaol o'r gwaith caled sy'n digwydd yn gysylltiedig â chyfranogiad yr heddlu - da iawn bawb a gyfrannodd at hyn.

Cododd yr Arweinydd ddau fater - roedd a wnelo'r cyntaf â'r ymgeisiau i losgi'n fwriadol yn ward Malpas, ac roedd nifer yr ymgeisiau i losgi'n fwriadol yn y cae ger Hosbis Dewi Sant yn destun pryder neilltuol. Pa waith parhaus oedd yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn ei wneud i atal hyn.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at ddefnydd gwrthgymdeithasol o feiciau oddi ar y ffordd yn wardiau Malpas a Betws, a'r modd yr oedd yr Heddlu a Chartrefi Dinas Casnewydd yn mynd i'r afael â hyn. Cydnabu'r Arweinydd nad cyfrifoldeb yr Heddlu yn unig oedd hyn, ond roedd am wybod beth oedd yn cael ei wneud a chael sicrwydd bod gwaith ar y gweill i drechu hyn.

Sicrhaodd yr Uwcharolygydd M Richards yr Arweinydd y byddai'n ymchwilio i'r ymgais i losgi'n fwriadol ger Hosbis Dewi Sant. Drwy gydweithio â'r Gwasanaeth Tân, yr Awdurdod Lleol a landlordiaid cymdeithasol, gan gynnwys y tri sector ar draws Casnewydd, drwy gyfarfodydd gorchwyl, byddai diweddariad yn cael ei roi i'r Arweinydd ynghylch yr ymgeisiau i losgi'n fwriadol, ar cynnydd hyd yma.

Roedd sefyllfa'n gysylltiedig â beiciau oddi ar y ffordd hefyd dan ystyriaeth ar y cyd â'r partneriaid uchod. Roedd y problemau'n gysylltiedig â beiciau oddi ar y ffordd hefyd yn cael eu harchwilio'n fanwl iawn drwy ddull partneriaeth.

<u>Cwestiynau gan y Cynghorwyr:</u>

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Marshall at gwynion gan breswylwyr ynghylch rasio ar y ffyrdd, llygredd sŵn ar Ffordd Ddosbarthu'r De a Tesco, Heol Caerdydd, a allai fod wedi symud o Tesco, Sbyty. Roedd pryderon hefyd ynghylch y defnydd o gyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn siopau Maesglas.
  A chan gyfeirio at bostiad Trydar yr Heddlu ynghylch masnachwyr twyllodrus, gofynnodd y Cynghorydd Marshall a allai'r Heddlu hefyd hysbysu aelodau'r ward er mwyn iddynt hefyd allu hysbysu'r trigolion am unrhyw faterion a godir gan yr Heddlu. Byddai'r Uwcharolygydd yn trafod y materion hyn â'r tîm lleol, ac roedd hefyd yn ymwybodol o'r problemau yn siopau Maesglas. Nid oedd yr Uwcharolygydd wedi gweld y postiad ar Trydar ynghylch masnachwyr twyllodrus, ond byddai'n sicrhau bod aelodau etholedig yn gweld trydariadau tebyg yn gyntaf.

- Diolchodd y Cynghorydd Rahman i'r Heddlu am fod yn bresennol yng Ngŵyl Maendy, ac roedd yn mynychu cyfarfodydd misol â'r Arolygydd Cawley, a oedd yn fuddiol iawn. Gofynnodd y Cynghorydd Rahman beth oedd polisi Heddlu Gwent ynghylch achosion lefel isel o ddelio cyffuriau, gan fod preswylwyr yn pryderu nad oedd unrhyw beth yn cael ei wneud yn ward Fictoria ar ôl iddynt hysbysu'r Heddlu am y digwyddiadau hyn. Sicrhaodd yr Uwcharolygydd y cynghorydd nad oedd unrhyw newid o ran polisi na chyfarwyddyd, ac nad oedd oddefgarwch tuag at weithgarwch o'r fath.

- Yn ddiweddar, roedd y Cynghorydd Spencer wedi bod i gyflwyniad Stopio a Chwilio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a gofynnodd a ellid rhoi'r cyflwyniad i Gynghorwyr Casnewydd. Cytunodd yr Uwcharolygydd y gellid rhoi'r cyflwyniad drwy seminar i'r holl aelodau.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Whitehead hefyd at y llosgi bwriadol ger Hosbis Dewi Sant a chytuno â sylwadau'r Arweinydd. Dywedodd hefyd fod hyn wedi digwydd dros gyfnod gweddol hir. Soniodd y Cynghorydd Whitehead hefyd am gael y ffaith bod giât wedi'i thynnu ger y gamlas, a bod hynny wedi cynyddu gweithgarwch gwrthgymdeithasol ger yr hosbis. Byddai'r Uwcharolygydd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau ymdriniaeth â hyn.

- Diolchodd y Cynghorydd Harvey i'r Uwcharolygydd am ei eiriau caredig yn gynharach, ac roedd am ddiolch hefyd i'r Arolygydd Cawley a oedd bob amser ar ben arall y ffôn. Yn ogystal â hynny, soniodd y Cynghorydd Harvey am ddwy Swyddog Cymorth Cymunedol, Robyn Hayes a Joanne Spiteri, a oedd yn patrolio ardal Alway yn gyson, ac yn chwilio am ffyrdd i symud rhai a oedd yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn e blaenau, yn ogystal â gweithredu mesurau atal i gau'r 'ali gyffuriau'. Roedd y Cynghorydd Harvey wedi ceisio ffonio 101 dros y penwythnos, ond bu'n aros am awr i gael ateb, ac yn y diwedd ffoniodd

999 i riportio digwyddiad. Roedd y Cynghorydd Harvey hefyd am sôn am y Prif Arolygydd Sarah Greening a oedd i ffwrdd o'i gwaith ar y pryd, ond a oedd bob amser ar ben arall y ffôn yn gwneud gwaith rhagorol. Roedd llif o feiciau modur a beiciau yn cael eu dwyn a'u rhoi ar dân. Roedd y Cynghorydd Harvey yn gwybod pwy oedd y drwgweithredwyr, a byddai'n riportio'r achosion hyn i'r Arolygydd Cawley. Diolchodd yr Uwcharolygydd i'r Cynghorydd Harvey am ei diolch a'i hadborth.

- Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Arolygydd Cawley a oedd yn rhoi diweddariadau misol drwy Teams, a oedd yn llawn gwybodaeth. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeavons at Siopau Pontfaen, lle'r oedd biniau sbwriel wedi cael eu gosod fel nad oedd pobl yn gollwng sbwriel. Gofynnodd y Cynghorydd hefyd am batrolau ychwanegol gan yr Heddlu er mwyn mynd i'r afael â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol hwn. Roedd yr Uwcharolygydd yn ymwybodol o'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Siopau Pontfaen, a byddai'n darparu'r adnoddau i fynd i'r afael â'r broblem honno.

5. **Rhybudd o Gynnig: Datganiad Bioamrywiaeth Caeredin**

Cyflwynodd yr Arweinydd y Cynnig a ganlyn i'w chyd-aelodau, a chadw ei hawl i siarad yn ddiweddarach yn y drafodaeth:

Yr ydym ni Gyngor Dinas Casnewydd yn **galw ar** Bartïon y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol i:

1. Gymryd camau cryf a dewr er mwyn trawsnewid pethau, fel yr amlinellir yn adroddiad asesu byd-eang IBPES, i roi terfyn ar golli bioamrywiaeth.
2. Cydnabod rôl hanfodol llywodraethau is-genedlaethol, dinasoedd ac awdurdodau lleol, er mwyn gwireddu gweledigaeth 2050 y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ôl-2020, a chenhadaeth 2030 fel y'i nodir yn y ddogfen Drafft Sero; a chynnwys y gydnabyddiaeth honno'n eglur drwy holl destun y fframwaith, gan gynnwys y fframwaith monitro ar gyfer y nodau a'r targedau.
3. Cefnogi mabwysiadu COP15, sef Penderfyniad penodol newydd i gynnwys llywodraethau is-genedlaethol, dinasoedd ac awdurdodau lleol o fewn fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ôl-2020;sy'n adeiladu ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Llywodraethau Is-genedlaethol, Dinasoedd ac Awdurdodau Lleol Eraill (2011-2020) fel y cafodd ei gymeradwyo o dan Benderfyniad X/22*;* ac sy'n codi'r uchelgais ar gyfer gweithredu'r fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ôl-2020 yn is-genedlaethol, mewn dinasoedd ac yn lleol dros y degawd nesaf.
4. Sefydlu llwyfan aml-randdeiliad sy'n sicrhau cynrychiolaeth o lywodraethau is-genedlaethol, dinasoedd ac awdurdodau lleol i gefnogi gweithredu fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ôl-2020.

Yr ydym ni, Cyngor Dinas Casnewydd **yn sefyll yn barod** i wynebu'r her o gyflawni, ochr yn ochr â Phartïon, fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ôl-2020, ac i chwarae rhan gryfach yng ngweithrediad y fframwaith, drwy Gynllun Gweithredu wedi'i adnewyddu a llawer mwy dwys i lywodraethau is-genedlaethol, dinasoedd ac awdurdodau lleol ar gyfer y degawd sydd i ddod, a

Bod y Cyngor hwn yn penderfynu cefnogi datganiad Caeredin ynghylch bioamrywiaeth, ac yn awdurdodi'r Arweinydd i lofnodi'r datganiad ar ran y Cyngor.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Hughes, a oedd hefyd wedi cadw ei hawl i siarad.

Ni chynigiwyd unrhyw ddiwygiadau.

<u>Sylwadau ar y Cynnig gan y Cynghorwyr:</u>

- Dywedodd y Cynghorydd Lacey wrth ei chyd-aelodau y byddai'n esgeulus iddi beidio siarad o blaid y cynnig hwn heddiw, fel hyrwyddwr bioamrywiaeth y ddinas.

  Roedd gan Gasnewydd gyfoeth o ecosystemau morol a thirol, ac fel aelodau etholedig y ddinas hon roedd hi'n ddyletswydd arnynt i wneud popeth o fewn eu gallu i warchod yr ecosystemau hynny.

  Er bod llawer iawn o waith wedi'i wneud i droi Casnewydd yn ddinas sy'n gyfeillgar â gwenyn, a llwyddiant mawr y gwaith hwnnw, nid oedd hynny'n ddigon ynddo'i hun.

  Roedd angen i'r Cyngor gydweithio ag eraill i warchod a gwella bioamrywiaeth, gan rannu arfer da ar draws y rhanbarthau hyn a chymryd camau dewr ac arloesol a fyddai'n creu canlyniadau cyd-fuddiannol am genedlaethau i ddod.

- Cefnogodd y Cynghorydd Truman y cynnig i wella a gwarchod yr amgylchedd.

- Cefnogodd y Cynghorydd Whitehead y cynnig a chytuno bod bioamrywiaeth yn bwysig iawn. Soniodd hefyd fod nifer yr adroddiadau am jac y neidiwr a oedd yn mygu'r nant ym Metws wedi cynyddu, a gobeithiai y byddai hyn yn cael ei ddatrys yn rhan o'r cynnig.

- Dywedodd y Cynghorydd M Evans wrth ei gyd-aelodau y byddai'r grŵp Ceidwadol yn cefnogi'r cynnig hwn, a hefyd yn cefnogi mentrau blaenorol o fewn y cyngor, fel y cynnig Cyfeillgar â Gwenyn a gyflwynwyd gerbron y Cyngor yn flaenorol. Roedd angen i Gynghorwyr ganu o'r un llyfr emynau er mwyn mynd i'r afael â'r newid hinsawdd ar raddfa leol, a dylent felly gefnogi bioamrywiaeth fel gweddill y byd. Roedd y Cynghorydd M Evans felly'n cefnogi'r cynnig.

- Dywedodd y Cynghorydd Hughes fod y cynnig hwn yn fynegiant o'n pryder dwys ynghylch goblygiadau mawr colli bioamrywiaeth a'r newid hinsawdd i'n bywoliaeth a'n cymunedau, a bod hyn yn effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau.

  Gallem eisoes weld yr effaith bron yn ddyddiol yn y penawdau newyddion.

  Roedd ymateb y bydd hyd yma wedi bod yn annigonol, a dylem beidio edrych yn ôl ar gyfleoedd a gollwyd yn dilyn Glasgow, fel y digwyddodd yn achos Paris.

  Wrth basio’r cynnig hwn cydnabu’r Cyngor fod yn rhaid iddo adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud yn y rhanbarth gan Lywodraeth Cymru, Cynghorau a grwpiau cymunedol.

  Yng Nghasnewydd roedd gennym agwedd benderfynol ac uchelgeisiol i fynd i'r afael â´r heriau anodd hyn, ac i beidio trosglwyddo problemau yr oeddem wedi'u creu i'n plant.

  Rhaid i uchelgeisiau Casnewydd fod yn wyrdd - does dim dewis arall os ydym am osgoi sefyllfa lle mae effaith negyddol y newid hinsawdd yn difetha ac yn gorthrymu ar ddyfodol ein plant.

  Rydym yn dibynnu ar natur i fod yn iach, yn hapus ac i ffynnu. Roedd gwarchod ein hamgylchedd naturiol yn golygu ei gadw er budd cenedlaethau'r dyfodol, ac roedd yn rhaid inni gynnal ecosystem iach ac amgylchedd iach.

  Mae Gwastadeddau Gwent yn gweithredu fel ysgyfaint ein rhanbarth. Roedd bywyd yn dychwelyd yno i safonau ffafriol, yn sgil gwaith anhygoel gan Fwrdd y Gwastadeddau, yr RSPB a gwirfoddolwyr. Cafodd 27km o ffosydd cae agored eu hadfer ac roedd rhywogaethau mwy prin o fywyd gwych yn dychwelyd, fel y gardwenynen feinlais.

Gofynnodd y Cynghorydd Hughes i’w gyd-aelodau gefnogi'r cynnig hwn yn eu rhinwedd fel arweinwyr cymunedol, i roi'r amgylchedd yn gyntaf. Fel Cyngor unedig gallem ddangos ein gofal a'n hagwedd gadarnhaol tuag at drawsnewid ac achub ein hamgylcheddau naturiol.

- Diolchodd yr Arweinydd i bawb a siaradodd o blaid y cynnig. Roedd rhai enghreifftiau o'r gwaith parhaus a oedd yn digwydd gyda chefnogaeth partneriaethau ar draws y ddinas yn cynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Gardd Gymunedol Lysaght, Llwybrau Coetiroedd, y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel, Caerllion Werdd, Maindee Unlimited, Balchder ym Metws, a llawer o grwpiau eraill ar draws y ddinas. Roedd cymunedau'n gweithio'n galed i gadw bioamrywiaeth yng Nghasnewydd. Roedd hi'n hollbwysig inni barhau â'r gwaith caled hwn, ac roedd y cynnig yn hanfodol er mwyn cynnal hyn. LIC oedd y senedd gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng natur. Rhannodd yr Arweinydd lythyr â chydweithwyr oddi wrth y Bumblebee Conservation Trust, a oedd yn canmol y Cyngor am ei gyfraniad at gynnal cynefin i wenyn yng Nghasnewydd. Roedd cymaint o gamau y gallai preswylwyr Casnewydd eu cymryd yn ogystal ag ymrwymiad strategol, a fyddai'n parhau ymhell i'r dyfodol.

**Penderfynwyd:**
Derbyn y Cynnig yn unfrydol.

6. **Adroddiad Blynyddol Craffu 2020-21**

Roedd y Cynghorydd Lacey yn falch o gyflwyno Adroddiad Craffu Blynyddol 2019/20 i'r Cyngor.

Un o swyddogaethau Cynghorau yng Nghymru a Lloegr yw craffu, ac fe'i cyflwynwyd yn sgil Deddf Llywodraeth Leol 2000, gan greu swyddogaethau Cabinet a Chraffu ar wahân mewn Awdurdodau Lleol. Cafodd rôl craffu ei chryfhau yn sgil pasio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae'r Ddeddf y ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor roi adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar y gwaith y mae wedi'i gyflawni dros y 12 mis diwethaf, a'i flaenraglen waith. Ers cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gan y swyddogaeth Graffu hefyd rôl statudol i graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Egwyddor sylfaenol trefniadau Craffu yw sicrhau bod y broses benderfynu'n agored, yn atebol ac yn dryloyw.

Cyflawnir y swyddogaeth graffu yng Nghyngor Dinas Casnewydd gan bedwar pwyllgor craffu. Mae'r pwyllgorau hyn wedi'u ffurfio o Aelodau Etholedig nad ydynt yn aelodau o Gabinet y Cyngor, ynghyd â chynrychiolwyr wedi'u cyf-ethol. Dyma'r pwyllgorau: Pwyllgor Craffu Perfformiad Lleoedd a Materion Corfforaethol, Pwyllgor Craffu Perfformiad Pobl, Pwyllgor Craffu Perfformiad Partneriaethau a'r Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i’r Cyngor ac i bartïon eraill a buddiant beth yw rôl y pwyllgorau craffu, a pha waith a gyflawnwyd ganddynt yn ystod blwyddyn y Cyngor yn 2019/20.

Mae’r adroddiad blynyddol yn cynnwys y cyfnod rhwng Mai 2019 ac Ebrill 2020. Mae’r Adroddiad yn amlygu’r gwaith pwysig a wnaed gan y Pwyllgorau Craffu yn ystod y cyfnod hwn, er gwaethaf yr aflonyddwch a achoswyd gan gyfyngiadau cyfnodau clo Covid-19. Roedd y cyfnod adrodd yn heriol, gyda llai o gyfarfodydd wedi'u cynnal yn y 6 mis cyntaf nag arfer, gan fod y Cyngor yn canolbwyntio adnoddau ar ymateb y Cyngor i Covid-19.

Er gwaethaf y digwyddiad digynsail hwn, mae’r Pwyllgorau Craffu Perfformiad ar gyfer Lleoedd a Materion Corfforaethol, a Phobl wedi bod yn craffu ar berfformiad, gan gynnwys sut mae’r Cyngor wedi addasu ac ymateb i’r heriau a wynebir gan wasanaethau a chymunedau oherwydd y pandemig.

Mae'r ddau Bwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiadau ar ymatebion y Cabinet i Argymhellion blaenorol y Pwyllgorau ynghylch cynigion y Gyllideb Ddrafft, yn rhan o'r cylch gwaith Craffu i fesur ac asesu effaith a gwerth yr Awdurdod.

Mae adroddiadau eraill yn cynnwys adroddiadau ar Deithio Llesol, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gorfodi Cyfyngiadau COVID a Fusnesau.

Bu'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Partneriaethau yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant a gyflwynwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac yn cyflwyno sylwadau i'w rhannu â'r BGC.

Yn yr un modd, bu'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar berfformiad yn erbyn Cynllun Llesiant 2020-21 ac yn cyflwyno sylwadau i'w hystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyflwynwyd cynnig i drawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl gan bartneriaid o'r Bwrdd Iechyd, a Chynllun Busnes 2021-22 gan bartneriaid o'r Gwasanaeth Addysg, i'w hystyried ac i dderbyn sylwadau gan y Pwyllgor.

Effeithiodd y pandemig ar y camau a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod adrodd, ond roedd y Cynghorydd Lacey yn falch o adrodd bod yr hyfforddiant i aelodau craffu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi'i gwblhau, er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ystyriaeth o'r Ddeddf wrth gyflawni gweithgarwch craffu.

Roedd y Cynghorydd Lacey yn edrych ymlaen at gael Cadeirio'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu dros weddill blwyddyn y Cyngor, gan weithio ochr yn ochr ag aelodau pwyllgor i sicrhau eu bod yn herio penderfyniadau'r awdurdod lleol mewn modd gwrthrychol a chynhyrchiol. Achubodd ar y cyfle i ddiolch i'w chyd-aelodau craffu ac Aelodau'r Cabinet, i Swyddogion yr Awdurdod Lleol ac i bartneriaid am eu cefnogaeth barhaus.

Eiliodd yr Arweinydd yr adroddiad.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cyngor yn cytuno ar gynnwys yr adroddiad blynyddol fel sail ar gyfer gwaith y Pwyllgorau Craffu yn y flwyddyn a oedd i ddod.

7. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

**Cyhoeddiadau'r Arweinydd**

- **Gwasanaeth bws Fflecsi**
  Roedd hi'n wych gweld cynllun bws Fflecsi yn cael ei ehangu ar draws y ddinas dros yr haf.

  Yn dilyn llwyddiant y peilot fflecsi cyntaf yng Nghymru a gafodd ei lansio yn Nhŷ-du a Sain Silian, roedd partneriaeth rhwng y Cyngor, Trafnidiaeth Cymru a Bws Casnewydd yn golygu bod fflyd o naw bws newydd sbon bellach yn gwasanaethu pob rhan o Gasnewydd.

  Roedd y bysus fflecsi yn gwella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, ac yn galluogi preswylwyr i fynd ar amrywiaeth llawer ehangach o deithiau, o'r peth cyntaf yn y bore hyd at yn hwyr yn y nos. Cam arall ymlaen yn ein hymrwymiad i fod yn ddinas wyrddach.

- **Gwasanaethau wyneb yn wyneb**
  Yn dilyn blwyddyn heriol iawn o ran darparu gwasanaethau allweddol, roedd yr Arweinydd yn falch iawn fod nifer o wasanaethau wyneb yn wyneb bellach wedi ailgychwyn.

  Roedd staff canolfan gyswllt Cyngor Dinas Casnewydd bellach yn gweithio o swyddfa dros dro ar Lannau'r Afon, ac roedd apwyntiadau ar gael i breswylwyr ag ymholiadau ynghylch tai, budd-dal tai, y dreth gyngor a phenodeion.

  Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, byddai staff y Cyngor yn parhau i weithio gartref lle bynnag y bo modd, ac roeddem yn annog pobl i ddefnyddio ein gwasanaethau ar-lein a ffôn ar gyfer y mwyafrif o ymholiadau.

  Ein cynllun tymor hwy oedd symud y gwasanaethau hyn i'r Llyfrgell Ganolog a'r Amgueddfa, yng nghanol ein dinas.

- **Gorymdaith Rhyddid**
  Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, roeddem yn falch o ddyfarnu Rhyddid y Ddinas i'r Lleng Brydeinig Frenhinol, i gydnabod y rhan yr oedd wedi'i chwarae yng nghymuned y lluoedd arfog am 100 o flynyddoedd.

  Byddai hyn yn cael ei ddathlu'n ffurfiol ddydd Iau 28 Hydref drwy gynnal Gorymdaith Rhyddid drwy'r ddinas. Roedd yr Arweinydd am i gynifer o bobl ag a oedd yn bosibl gymryd rhan er mwyn helpu i ddangos ein gwerthfawrogiad o'r sefydliad anhygoel hwn. Gofynnodd yr Arweinydd i'r rhai a oedd yn bresennol nodi'r dyddiad yn eu dyddiadur, ac i gadw golwg am fanylion pellach yn nes at yr amser.

- **HMS Hafren**
  Gan barhau â'r thema filwrol, roedd hi hefyd yn anrhydedd cael HMS Hafren wedi'i hailgysylltu'n ffurfiol â'r ddinas.

  Gollyngodd y llong ei hangor ddiwethaf yn Nociau Alexandra, ac arfer Rhyddid y Ddinas, yn hwyr yn 2017 cyn yr oedd i fod i gael ei datgomisiynu.

  Fodd bynnag, ni chafodd HMS Hafren ei gwerthu gan y Llynges Frenhinol oherwydd Brexit, a phenderfynwyd ei chadw a'i hailgomisiynu - mae hi hyd yn oed wedi cael côt newydd o baent!

  Byddai'n dychwelyd i'r ddinas ym mis Tachwedd a byddai cynrychiolwyr yn ymuno â ni ar gyfer gwasanaeth a Gorymdaith y Cofio. Edrychwn ymlaen i groesawu'r llong, ei Chapten a'i chriw yn ôl i'r ddinas.

- **Cynllunio canolfannau hamdden**
  Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol hefyd fod ymgynghoriad bellach wedi dechrau ar y cais cynllunio ar gyfer y ganolfan hamdden arfaethedig yng nghanol y ddinas, a bod modd gweld y cynlluniau ar ein porth cynllunio ar-lein.

  Bu'r ymateb i'r ymgynghoriad gwreiddiol yn ardderchog a chadarnhaol - ac roedd sylwadau ein preswylwyr a'n partneriaid mor bwysig yn y broses hon.

  Roedd disgwyl iddo gael ei gyflwyno gerbron pwyllgor cynllunio llawn yn ddiweddarach eleni, a phryd hynny byddai penderfyniad yn cael ei wneud.

  Pe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'n cael ei adeiladu'n unol â'r safonau amgylcheddol a chynaliadwy uchaf posibl, a byddai'n ganolfan bwrpasol, gyda chyfleusterau modern, wedi'i lleoli mewn safle allweddol ar lannau'r afon.

**Cwestiynau i'r Arweinydd**

Cynghorydd M Evans:
Pam bod yr Arweinydd wedi cyhoeddi Cais Casnewydd i fod yn Ddinas Diwylliant drwy ddatganiad i'r wasg, heb wneud y penderfyniad yn ffurfiol drwy'r Cabinet, a heb ymgynghori â phreswylwyr na thrafod â gwrth-bleidiau.

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd nad oedd hyn ond yn golygu mynegi diddordeb yn y gystadleuaeth ar hyn o bryd, a bod 19 o ddinasoedd eraill hefyd wedi mynegi diddordeb yn y gystadleuaeth. Gan hynny nid oedd angen penderfyniad ffurfiol i fynegi diddordeb mewn cystadleuaeth. Serch hynny, roedd yr Arweinydd y falch o'r adborth gan gymuned greadigol Casnewydd, a chan aelodau etholedig ar draws y rhanbarthau a'n partneriaid mewn cynghorau cyfagos, a oedd hefyd yn ein cefnogi yn ein mynegiant o ddiddordeb.

Atodol:
Ailadroddodd y Cynghorydd Evans ei gwestiwn uchod, a dywedodd fod y grŵp Ceidwadol bob tro wedi ymgynghori â'r Weinyddiaeth bresennol ynghylch ei holl benderfyniadau. Dywedodd y Cynghorydd M Evans fod y weinyddiaeth bresennol yn gweithredu fel gwladwriaeth un blaid yn hytrach na democratiaeth. Byddai'r grŵp Ceidwadol yn cefnogi'r mynegiant hwn o ddiddordeb, ond teimlai ei bod hi'n biti na chafodd y grŵp ceidwadol ei ystyried yn rhan o'r broses ddemocrataidd hon.

Ymateb:
Awgrymodd yr Arweinydd, pe bai'r Cynghorydd M Evans ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb yn dymuno mesur lefel y diddordeb yn y gystadleuaeth, y dylent edrych ar y llythyrau cefnogol a oedd wedi'u dangos ar wefan y Cyngor. Roedd y rhain yn cynrychioli ystod o grwpiau ac unigolion ar draws Casnewydd.

Cynghorydd Whitehead:
O ran y duedd anffodus i oryrru ar bont ffordd ddosbarthu'r de, a wnaeth yr Arweinydd gysylltu â Capita i gynnal adolygiad iechyd a diogelwch ac, os felly, a allai'r Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor.

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd fod Capita wedi cael ei gomisiynu i gynnal adolygiad ond nad oedd ganddi wybodaeth wrth law. Er hynny, byddai'n rhoi ymateb ysgrifenedig.

Cynghorydd Carmel Townsend:
A oedd yr Arweinydd o'r farn fod y trothwy HMO o 10% yn ardaloedd mewnol mwy adeiledig y ddinas o gymharu ag 15% yn rhannau eraill o'r ddinas yn deg, neu a ddylai Casnewydd fod yn edrych ar drothwy llawer is yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd y galw am fannau parcio a phryderon eraill yn llawer uwch.

Ymateb:
Mae cyfyngiadau ar ddwyseddau HMO wedi'u cynnwys yn ein Canllawiau Cynllunio ac yn rhoi syniad o'r hyn a allai fod yn dderbyniol. Y trothwyon mewn gwirionedd yw 15% yn ardal adeiledig y craidd mewnol a 10% yn rhannau eraill o'r ddinas. Fodd bynnag, hoffwn eich atgoffa bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch pob cais yn ôl ei rinweddau ac yn amodol ar asesiad o'i gyd-destun neilltuol. Gall tai HMO wedi'u rheoli'n dda gynnig llety hygyrch a fforddiadwy i amrywiaeth o wahanol breswylwyr, a gellir eu hintegreiddio'n dda i'n cymunedau. Pwrpas ein canllawiau cynllunio yw sicrhau nad yw crynhoadau o ddefnyddiau o'r fath yn creu effeithiau andwyol ar ein cymunedau, ac fel cyn-aelod o'r Pwyllgor Cynllunio rwy'n ymwybodol bod ceisiadau'n cael eu hystyried yn ofalus a rhesymau manwl yn cael eu rhoi i gyfiawnhau'r penderfyniadau a wneir. Caiff llawer o'r penderfyniadau i wrthod caniatâd eu herio drwy apêl am y rhesymau rydych chi'n eu rhoi, ond nid ydym wedi cael tystiolaeth i gefnogi'r pryderon hyn, a bu ein hymgais i amddiffyn yr heriau hynny'n aflwyddiannus. Rhoddodd y Prif Arolygydd Cynllunio hefyd hyfforddiant i'r Pwyllgor Cynllunio ar HMOs, ac

roedd yr hyfforddiant hwnnw'n ddefnyddiol i'r Aelodau Pwyllgor wrth ystyried beth fyddai effeithiau gwirioneddol unrhyw gynigion.

Cynghorydd Hourahine:
A allai'r Arweinydd hysbysu'r Cyngor faint y byddai'r codiad mewn Yswiriant Gwladol yn ei gostio i'r Awdurdod Lleol ac i drethdalwyr mewn cyfraniadau cyflogaeth.

Ymateb:
Soniodd yr Arweinydd fod y cwestiwn yn cyfeirio at gyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch y codiad mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol i gyllido iechyd a gofal cymdeithasol. Cynhaliwyd trafodaeth yr wythnos gynt yng nghyfarfod CLILC â'r Arweinwyr. O fis Ebrill 2022 byddai cynnydd o 1.25% yng nghyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr. Roedd hyn mewn gwirionedd yn golygu 2.5% o gynnydd mewn enillion cyflogaeth. Byddai hyn yn effeithio ar bobl mewn gwaith a thros oed cyflogaeth. Gwnaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) sylwadau ar hyn a dweud bod y cyfuniad o ffactorau dan sylw yn golygu bod hyn yn fwy cymhleth nag yr oedd ei angen, ac y byddai wedi bod yn well cyflwyno cynnydd bach i'r dreth incwm. O fis Ebrill 2023 ni fydd y cyfraniad hwn yn seiliedig ar YG mwyach, ond yn rhan o dreth ag enw newydd, sef yr ardoll iechyd a gofal cymdeithasol. O ran yr hyn y byddai'r ardoll yn ei olygu i CDC fel cyflogwr ac i breswylwyr Casnewydd - pobl o oed gwaith fyddai'n ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r taliad gan ei fod yn seiliedig ar YG. Roedd hyn yn golygu bod y cynnydd yn creu pwysau cyllido blynyddol ychwanegol o £47M i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn creu cost sylweddol i drethdalwyr Casnewydd o oddeutu £825 y flwyddyn, neu gynnydd o 1.5% i'r Dreth Gyngor i wneud iawn am y diffyg.

Atodol:
A allai'r Arweinydd ddadansoddi hyn ar sail aelwydydd unigol yng Nghasnewydd.

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd fod LIC wedi neilltuo £40M i gefnogi gofal cymdeithasol, a bod hynny'n rhywbeth i'w groesawu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael gan y llywodraeth ganolog ac nid oedd unrhyw gynlluniau i ddiwygio gofal cymdeithasol. Byddai hyn yn effeithio ar 16,000 o aelwydydd, ynghyd â'r penderfyniad i dynnu credyd cynhwysol yn ôl, gan adael aelwydydd £1k ar eu colled bob blwyddyn.

8. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Roedd yna bedwar cwestiwn ysgrifenedig i Aelodau'r Cabinet:

Cwestiwn 1 – Aelod Cabinet: Gwasanaethau Cymdeithasol

Cynghorydd J Watkins:
Tybed a all yr Aelod Cabinet esbonio'r Polisi a'r sail resymegol ar gyfer ceisiadau am fannau parcio i bobl sy'n anabl, ac sydd angen y cyfleuster.

A yw'r Aelod Cabinet o'r farn fod y polisi'n deg a'i fod yn bodloni anghenion y rhai sydd angen ymgeisio, ac a yw o'r farn fod y Polisi'n wahaniaethol.

Ymateb:
Roedd llwybr clir wedi'i sefydlu i ddarparu Man Parcio i Bobl Anabl, gyda pholisi a phroses a oedd ar gael i bawb.

Roedd y polisi a'r broses i gefnogi darparu man parcio i bobl anabl eisoes wedi bod drwy broses ddemocrataidd. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o'r modd y gellid rheoli'r ddarpariaeth i dargedu'r rhai â'r mwyaf o angen o fewn cyllideb benodol, a galluogi'r gwasanaethau da sylw i amserlennu a rheoli'r gwaith angenrheidiol.

Yn y gorffennol, ac o dan y system gyfredol, mae gormod o geisiadau wedi cael eu gwneud am fannau parcio ac nid yw'r mannau hynny bob amser wedi cael eu darparu mewn modd teg. Roeddem yn cydnabod nad oedd y system gyfredol, o bosib, yn bodloni gofynion penodol pob unigolyn, ond nid oedd yr un system a fyddai'n gweddu i bob sefyllfa. Roedd y broses gyfredol yn sicrhau tegwch a bod y meini prawf y sefydlwyd ac y cytunwyd arnynt yn cael eu defnyddio ar gyfer pob cais.

Roedd y polisi a'r broses bresennol yn caniatáu un garfan flynyddol, a oedd yn cynnwys ffenestr o 3 mis i'r rhai a oedd yn cysylltu ac yn bodloni'r trothwy cychwynnol i wneud cais am ystyriaeth. Y rheswm dros y system hon oedd sicrhau bod y broses ar agor yn deg, yn hytrach na'i bod yn wasanaeth "y cyntaf i'r felin" bob blwyddyn.

Roedd y dull symlach a oedd yn cael ei ddefnyddio bellach yn ein galluogi i adolygu ceisiadau mewn modd teg a chyfartal, fel bod y rhai mwyaf anghenus yn derbyn ystyriaeth am wasanaeth y mae llawer gormod o alw amdano. Byddai'r gallu i wneud cais ar sail ad hoc, neu y tu allan i'r meini prawf cytunedig drwy gydol y flwyddyn yn tanseilio'r dull teg hwn. Roedd hi'n anochel y byddai achosion brys yn codi, gan greu her, ond er mwyn ceisio sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosbarthu'n deg ac yn rhesymol, dyma oedd y broses a'r defnydd mwyaf deallus o adnoddau.

Roedd y broses symlach hon yn galluogi Gwasanaethau'r Ddinas i reoli'r gofynion cyfreithiol. Roedd y rheiny'n gostus ac yn cymryd amser i'w gweithredu. Byddai dull ad hoc yn anodd iawn i'w reoli yng nghyd-destun y gofynion cyfreithiol, a byddai'n cynyddu cyfanswm y costau ac o bosib yn cynyddu'r amser a gymerir i ddarparu man parcio.

Roedd fframwaith ymgeisio un cohort yn galluogi'r defnydd gorau o gyllideb benodol, ac felly'n golygu bod modd darparu mwy o fannau parcio. Byddai prosesu un man parcio ar y tro yn cynyddu costau'n sylweddol ac felly'n lleihau cyfanswm y mannau parcio y gellid eu darparu.

O ddefnyddio'r broses hon gallem gydgysylltu ceisiadau i ddileu yn erbyn ceisiadau yn fwy effeithiol.
Roedd darparu man parcio yn golygu mwy na phaentio llinellau ar y ffordd. Roedd yn rhaid bodloni gofynion cyfreithiol llym, gan weithredu Gorchymyn Rheoli Traffig, ac roedd hynny'n golygu costau uchel ac cymryd amser hir. Gan hynny, nid oedd modd darparu'r gwasanaeth i fodloni angen brys ac uniongyrchol, neu am y tymor byr.

Cytunwyd ar y polisi a'r broses yn ffurfiol drwy'r broses ddemocrataidd, ac er ein bod yn cydnabod nad yw'r broses gyfredol yn dderbyniol gan bawb, rydym yn ymdrechu i fodloni gofynion yn y modd mwyaf effeithiol, effeithlon a theg ag sy'n bosibl.

Nid yw darparu man parcio yn wasanaeth statudol, felly nid oedd y broses sydd ar waith yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth. Roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o fewn yr holl ofynion, ond er mwyn cynnig gwasanaeth teg roedd yn rhaid i'r gwasanaeth hwnnw fod yn unol â'r broses gytunedig.

Roedd hi'n bwysig felly, wrth i bobl wneud ymholiadau ynghylch y broses, eu bod yn derbyn cyngor priodol i leihau eu disgwyliadau.

<u>Cwestiwn Atodol:</u>
A all yr Aelod Cabinet ddweud a yw'n teimlo bod y polisi'n cefnogi'r awdurdod lleol yn hytrach na chefnogi unigolyn anabl.

<u>Ymateb:</u>
Roedd y Cynghorydd Cockeram wedi bod yn angerddol o blaid mannau parcio i bobl anabl ar hyd y blynyddoedd. Nid oeddem ond yn gallu gweithredu'n unol â'n gallu, a darparu cyllid drwy'r grant diogelwch yn y cartref a'r asesiad ar sail anghenion. Roedd y Cyngor yn

gwneud popeth o fewn ei allu â'r arian a oedd ar gael. Nid oedd mannau parcio i bobl anabl yn ofyniad statudol, ac nid oedd y rhan fwyaf o awdurdodau'n eu darparu. Roedd hi'n anodd gosod mannau parcio mewn llefydd fel strydoedd â rhesdai, lle gallai cymdogion wrthwynebu, ond gallai pobl â bathodynnau glas ddwbl-barcio y tu allan i dŷ.

Cwestiwn 2 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas

Cynghorydd Mogford:
Ar 16 Ebrill 2021, adroddodd y South Wales Argus am sefyllfa sbwriel yng Nghasnewydd. https://www.southwalesargus.co.uk/news/19265515.newport-updated-dramatic-rise-fines-litter-fly-tipping-city/

Roedd yr erthygl yn cynnwys dyfyniad gan y Cyng. Jeavons, sef bod sbwriel a thipio anghyfreithlon yn cael eu creu gan "unigolion anghyfrifol a chanlyniad hynny yn y pen draw yw effaith negyddol sylweddol ar ein cymunedau a baich ar adnoddau'r cyngor".

O sylfaen isel o erlyniadau yn 2019 a 2020 (saith a 61 yn y drefn honno), honnwyd bod erlyniadau 2021 bellach wedi codi dros 700%.

A allai'r Aelod Cabinet roi gwybod i'r Cyngor beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf yn y frwydr barhaus yn erbyn gollwng sbwriel, gan gynnwys:
- Beth yw nifer cyfredol yr erlyniadau llwyddiannus ar gyfer 2021?
- A yw'r baich ar adnoddau'r cyngor wedi cynyddu neu leihau?
- Ymhle y mae'r mannau problemus yn Ninas Casnewydd, ac a yw'r rheiny wedi newid ers mis Ebrill 2021.

Ymateb:
Roedd mynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor, ac er gwaethaf yr holl broblemau a'r cyfyngiadau dros y 18 mis diwethaf, bu cynnydd yn y gweithredu yn erbyn hyn.

Y ffigurau diweddaraf sydd gennym ar gyfer eleni yw 25 Hysbysiad Cosb Benodedig am ollwng sbwriel.

O ran erlyniadau, roedd llawer iawn o achosion wedi ôl-gronni yn y llysoedd yn sgil y pandemig, ond dros y ddau fis diwethaf clywyd chwech o'n hachosion yn y llys, ac roedd dyddiadau am wrandawiad llys wedi'u pennu ar gyfer 26 o achosion eraill dros y tri mis nesaf.

Roedd gennym hefyd 15 o ymchwiliadau ar y gweill

Arweiniodd ymgyrch gudd fawr ar hen ffordd fynediad LG, sydd wedi bod yn ardal broblemus dros yr ugain mlynedd diwethaf, at nifer o erlyniadau, ac roedd disgwyl i achosion pellach ymddangos gerbron y llys.

Roedd nifer o ymgyrchoedd cudd ar y gweill ar draws y ddinas, ond am resymau amlwg ni fyddai'r Cyngor yn datgelu'r lleoliadau dan sylw.

O ran sbwriel, roedd y weinyddiaeth hon ar y trywydd iawn i ddyblu nifer y biniau sbwriel ar draws y ddinas erbyn diwedd eleni.

Atodol:
Nid oedd y 'ffordd i unman' sef hen ffordd fynediad LG ar ochr orllewinol Casnewydd yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn ar gyfer tipio anghyfreithlon.  Sut y byddai modd cael gwared â'r tipio anghyfreithlon?

Ymateb:

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd eto fod ymgyrchoedd cudd ar y gweill, a bod hen ffordd fynediad LG yn rhan o hynny, felly ni fyddai modd rhoi rhagor o wybodaeth ar y pryd.

Cwestiwn 3 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas

Cynghorydd Mogford:
Roedd rhifyn 3 Medi 2020 y South Wales Argus yn cynnwys erthygl ar lifogydd

"Why Newport flood risk plan won't be published'
https://www.southwalesargus.co.uk/news/18694120.newport-flood-risk-plan-wont-published/

Honnwyd yn yr erthygl honno fod 'dros hanner Casnewydd wedi'i nodi'n ardal risg llifogydd mewn cynllun newydd gan y Cyngor'. [cyfieithiad o'r Saesneg gwreiddiol]

Fodd bynnag, ni fydd y cynllun gwirioneddol yn cael ei ddatgelu i'r cyhoedd er mai 'Llifogydd ar hyn o bryd yw'r argyfwng sydd â'r risg fwyaf o ddigwydd yn ardal CDC.

Hefyd, mae pedair ardal risg llifogydd newydd wedi'u nodi

- Maendy
- Crindai
- Dyffryn
- Llyswyry

Yn ogystal â hynny, byddai'r cynllun yn effeithio ar y rhan fwyaf o wardiau cyngor oherwydd cwmpas eang y risg llifogydd.

A allai’r Aelod Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pa fesurau sydd wedi’u cymryd ac a fydd yn cael eu cymryd yn unol â’r cynllun ers iddo gael ei gymeradwyo, a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r adroddiad Adran 19 sydd wedi cael ei grybwyll droeon yn y Cyngor llawn. A allai'r Aelod Cabinet hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut y bydd y cynllun yn effeithio'n gadarnhaol ar Ward Langstone, yr effeithiwyd arni'n ddifrifol gan lifogydd, ynghyd â llawer o wardiau eraill, ar ddiwedd 2020.

Ymateb:
Roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i greu cynllun i sicrhau bod ganddo drefniadau priodol i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd yn y ddinas.

Roedd yn ofyniad gan Lywodraeth y DU i bennu'r cynllun hwn yn "swyddogol a sensitif", am resymau masnachol a diogelwch, gan fod y cynllun yn cynnwys gwybodaeth fel mapiau cronfeydd dŵr.

Fodd bynnag, roedd yr holl wybodaeth a oedd yn hanfodol i'r cyhoedd wedi'i chofnodi'n dda, ac ar gael yn gyhoeddus, ac roedd hynny'n cynnwys risgiau llifogydd yn y ddinas yn ogystal â chyfrifoldebau'r holl asiantaethau dan sylw.

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru wybod am y pedair ardal risg llifogydd newydd yn rhan o'i gofrestr o gymunedau sy'n wynebu risg. Roedd y Cyngor yn disgwyl am y data gan CNC a fyddai'n dangos maint y risg llifogydd, ac ar ôl derbyn y data byddai gwaith yn dechrau i werthuso pa mor ddifrifol yw'r risg llifogydd, a byddai hynny'n sail ar gyfer ein gwaith cynllunio a'n strategaethau risg llifogydd i'r dyfodol.

Fel y soniwyd eisoes, roedd adroddiad adran 19 yn trafod casgliadau ymchwiliadau gan yr awdurdodau perthnasol amrywiol, a byddai'n cael ei gyhoeddi ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cwestiwn Atodol:
A allai'r Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am y sachau tywod a oedd wedi'u gosod mewn mannau strategol yng Nghasnewydd.

Ymateb:
Cafwyd hyd y leoliadau addas, ac roedd y Dirprwy Arweinydd wedi cael cymeradwyaeth gan y preswylwyr ynghylch ble i osod y sachau tywod hyn. Roedd y gwaith yn mynd rhagddo, a chyn gynted ag y byddai rhagor o sachau tywod yn cyrraedd, byddai modd bwrw ymlaen â'r gwaith.

Cwestiwn 4 – Aelod Cabinet: Trwyddedu a Rheoleiddio

Cynghorydd Mogford:
Mae llygredd a’r amgylchedd wedi’u datganoli i Gymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn awyddus i annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

Mae aelod o Lywodraeth Lafur Cymru wedi cael ei ddyfynnu yn cyfaddef:
"Bob blwyddyn, ledled Cymru, mae llygredd aer yn cyfrannu at bron i 1,400 o farwolaethau cyn pryd ac yn costio bron £1biliwn i GIG Cymru.

"Gwyddom y gall cynnydd sydyn mewn llygredd aer am gyfnod byr yn unig effeithio ar iechyd rhai pobl, a bydd cysylltiad hirdymor hefyd yn cynyddu eich risg o ddatblygu cyflyrau fel clefyd y galon, dementia, canser yr ysgyfaint, diabetes a mwy." Aeth ymlaen i ddweud "Mae lleihau'r ddibyniaeth ar geir yn hollbwysig er mwyn gwella ansawdd yr aer yng Nghasnewydd". Cyfeiriodd hefyd at fesurau i'r perwyl hwn yn Adroddiad Burns, a nodai gyfres o ffyrdd i wella trafnidiaeth o amgylch y ddinas ar ôl cefnu ar ffordd liniaru'r M4.

O weld effaith y ciwiau ar yr M4 o gyfeiriad Langstone, a'r ceir sy'n gorlifo i ffyrdd lleol yn sgil hynny, nid yw'r sefyllfa ond yn gwaethygu. Ar yr un pryd, ymddengys nad oes unrhyw ffordd i ddatrys yn rhag digwydd y naill wythnos ar ôl y llall, fis ar ôl mis, flwyddyn ar ôl blwyddyn.

A allai’r Aelod Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Cyngor ynghylch yr ardaloedd gwaethaf o ran llygredd aer yng Nghasnewydd, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i leihau problemau parhaus yn gysylltiedig â thraffig a nifer y marwolaethau yng Nghasnewydd a gysylltir ag ansawdd gwael yr aer.

Ymateb:
Hoffwn gyfeirio'r wybodaeth fanwl a ddarparwyd gennyf yn flaenorol yng nghyfarfod y Cyngor mewn ymateb i gwestiynau ynghylch rheoli ansawdd yr aer i sylw'r Cynghorydd Mogford.

Roedd hi'n amlwg mai'r ardaloedd gwaethaf o ran ansawdd yr aer yng Nghasnewydd oedd yr 11 o Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer a ddatganwyd gan y Cyngor, yr oedd pump ohonynt wedi'u lleoli ar hyd coridor yr M4. Roedd lefelau'r deuocsid nitrus a gofnodwyd yn yr ardaloedd hynny yn uwch na'r amcanion ansawdd aer a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, datganwyd yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer hynny nifer o flynyddoedd yn ôl ac, fel y dywedais wrth y Cyngor yn flaenorol, roedd lefelau'r allyriadau yn yr holl ardaloedd hynny wrth ymyl yr M4 yn gostwng yn raddol, a phob un ohonynt yn symud tuag at lefelau cydymffurfio. Yn wir, mae ARhAA Sain Silian ar fin cael ei diddymu gan nad yw wedi torri'r amcanion ansawdd aer ers sawl blwyddyn. Rydym felly'n gwneud cynnydd da i leihau allyriadau a gwella ansawdd yr aer.

Byddai Iechyd yr Amgylchedd yn parhau i fonitro ansawdd yr aer ac yn diweddaru Cynllun Gweithredu Ansawdd yr Aer y Cyngor i gynnwys camau i wella ansawdd yr aer yn yr ardaloedd RhAA hyn. Rhan allweddol o'r cynllun gweithredu fyddai sefydlu grwpiau gweithredu lleol i ymgysylltu â'r cymunedau lleol, gan fod addysgu'r cyhoedd ac annog newidiadau o ran ymddygiad yn hanfodol er mwyn inni leihau effeithiau llygredd yr aer ar iechyd y cyhoedd. Roeddem ar fin sefydlu'r grŵp gweithredu lleol cyntaf yng Nghaerllion a byddai hwnnw wedyn yn cael ei gyflwyno yn yr holl ardaloedd RhAA eraill. Fel y dywedais o'r blaen, nid oedd hyn yn rhywbeth y gallai'r Cyngor ei ddatrys ar ei ben ei hun.

Roedd y Cyngor hefyd wedi cyhoeddi strategaeth teithio cynaliadwy ac yn datblygu llwybrau teithio llesol.  Rhoddais amlinelliad yn flaenorol i'r Cyngor o'r mentrau teithio cynaliadwy sy'n cael eu datblygu, gan gynnwys y defnydd o gerbydau trydan. Roedd ansawdd yr aer, y newid hinsawdd, a lleihau carbon oll yn rhan o'r un agenda iechyd cyhoeddus.

O ran materion traffig, roedd hi'n glir bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno terfyn cyflymder o 50mya ar ddarnau o'r M4 wedi cael effaith gadarnhaol ar allyriadau ansawdd yr aer. Fodd bynnag, materion i Lywodraeth Cymru oedd rheoli traffig a thagfeydd ar yr M4. Hefyd, byddai gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus yn sgil Adroddiad Burns yn cael eu datblygu ar lefel ranbarthol yn rhan o bolisi trafnidiaeth strategol.  Os oedd gan y Cynghorydd Mogford unrhyw gwestiwn ynghylch cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus neilltuol, byddai angen iddo holi fy nghyd-aelod ar y Cabinet, y Cynghorydd Jeavons.

<u>Cwestiwn Atodol:</u>
Pwy oedd y grŵp gweithredu lleol y cyfeiriodd yr Aelod Cabinet ato yn ei ymateb?

<u>Ymateb:</u>
Roedd grŵp Caerllion yn cynnwys swyddogion, cynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd, yr oedd gan bawb ohonynt ran fawr i'w chwarae yn hyn, a byddai cyfarfod a chynnwys preswylwyr hefyd o gymorth i sicrhau gwelliannau.

The meeting terminated at Time Not Specified